**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 12-01(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 4 Gorffennaf 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.20pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Gareth Jones (eitem 2) | Pennaeth Gweithrediadau Clwy'r Traed a'r Genau |
| David Thomas (eitem 2) | Swyddog Milfeddygol |
| Mike Dunn (eitemau 2, 3 a 5) | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Alan Starkey (eitem 5) | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Brian Pawson (eitem 5) | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carwyn Jones a John Griffiths. Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr a dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cytuno i ohirio'r drafodaeth a oedd i fod i gael ei chynnal yn y cyfarfod llawn yr wythnos flaenorol ar adroddiad y pwyllgor, *Arallgyfeirio'r Economi Wledig*, gan na

fyddai digon o amser i wneud cyfiawnder â'r adroddiad. Gobeithiai y byddai modd aildrefnu'r ddadl cyn diwedd y sesiwn.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 12-01(p1)
2.1 Eglurodd y Dirprwy Weinidog na allai'r Gweinidog fynychu'r cyfarfod gan fod ganddo gyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Llundain y prynhawn hwnnw. Cyflwynodd David Thomas a oedd yn mynychu'r cyfarfod yn lle Tony Edwards. Dywedodd wrth y pwyllgor fod y Gweinidog wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg am 2pm a oedd yn nodi nad oedd samplau gwaed dechreuol wedi dangos unrhyw arwydd o glwy'r traed a'r genau ymhlith y defaid a oedd â'u cynefin ar Fannau Brycheiniog, er ei bod hi'n rhy fuan i fod yn sicr mai dyna oedd y sefyllfa a dywedodd fod profion pellach yn cael eu gwneud.

2.2 Yn y cyfarfod blaenorol yr oedd y Gweinidog wedi dweud y disgwylid cyhoeddiadau yn ddiweddarach yr wythnos honno ynghylch y sefyllfa gyda thrwyddedau ar gyfer prynu a gwerthu mewn ardaloedd glân. Holwyd y Dirprwy Weinidog pa gynnydd a oedd wedi ei wneud. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y Gweinidog yn deall yn iawn pa mor bwysig oedd egluro'r sefyllfa wrth ffermwyr. Gobeithid yn awr y byddai cyhoeddiad ar brynu a gwerthu mewn ardaloedd glân ac ardaloedd eraill yn cael ei wneud ymhen ychydig wythnosau.

2.3 Codwyd mater prynu a gwerthu ^wyn a gwartheg stôr yn yr hydref gan fod hwn yn destun pryder cynyddol yn y diwydiant ffermio. Yr oedd ar ffermwyr angen datganiad clir ynghylch y rhagolygon ar gyfer prynu a gwerthu. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y mater yn cael ei drafod yn y cyfarfod yr oedd y Gweinidog yn ei gael yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y prynhawn hwnnw. Dyma'i brif flaenoriaeth ar ôl rheoli'r clefyd. Yr oedd yr achosion yn Libanus yn dangos bod angen bod yn ofalus o hyd. Nododd y pwyllgor fod y Gweinidog wedi cyfarfod yr undebau amaethyddol y bore hwnnw a bod pwnc prynu a gwerthu yn yr hydref wedi ei drafod.

2.4 Holwyd y Dirprwy Weinidog ynghylch cynlluniau i ddelio gyda'r farchnad ^wyn yn yr hydref. Yr oedd y dewisiadau'n cynnwys trafodaethau gyda Seland Newydd ynghylch cyfeirio eu cynnyrch hwy i Ewrop yn lle allforion Cymreig, sicrhau cytundebau gyda'r prif adwerthwyr a chynlluniau storio preifat. O safbwynt cynlluniau storio preifat a fyddai'n bosibl storio rhannau o garcasau yn hytrach na rhai cyfan? Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y dewisiadau hyn i gyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r strategaeth a oedd yn cael ei datblygu. Nododd y pwyllgor fod prynu ar gyfer difa yn ddewis arall. Byddid yn ymchwilio'r pwynt ynghylch rhannau o garcasau ar gyfer cynlluniau storio preifat a byddai nodyn yn cael ei ddarparu ar gyfer y pwyllgor.

2.5 Holwyd y Dirprwy Weinidog pa feini prawf fyddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn eu sefydlu cyn y caniateid i'r DG ailddechrau allforio a pha wahaniaeth y gellid ei ddisgwyl rhwng allforio anifeiliaid byw ac allforio carcasau? Nododd y pwyllgor mai nod y Gweinidog oedd ailddechrau allforio cyn gynted ag y byddai'n bosibl. Ni wyddid eto pa feini prawf y byddai Ewrop yn eu pennu. Byddid yn caniatáu allforio carcasau cyn anifeiliaid byw gan fod y firws yn cael ei ladd gan newidiadau mewn asidedd ar ôl lladd. Nid oedd unrhyw ganllawiau swyddogol wedi eu sefydlu ac eithrio y gellid gwneud

cais am statws rhydd o'r haint dri mis ar ôl i'r achos diwethaf gael ei gadarnhau. Byddai'n rhaid cwblhau'r samplau gwaed hefyd o fewn y parthau 7 cilomedr o amgylch achosion sydd wedi eu cadarnhau. Gofynnwyd am nodyn yn egluro am faint o amser y gallai'r firws fyw ar ôl i'r anifail gael ei ladd.

2.6 Holwyd y Dirprwy Weinidog a ellid defnyddio'r tagiau defaid a oedd gan bob cynhyrchwr erbyn hyn er mwyn adnabod defaid. Nododd y pwyllgor fod olrheinadwyedd yn bwysig ac y byddai tagio'n gymorth. Cytunodd y swyddogion i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r tagiau presennol.

2.7 Yr oedd yr angen i ddiheintio cerbyd cludo mewn canolfan ddiheintio ar ôl symud da byw â thrwydded yn golygu cost ychwanegol sylweddol i gynhyrchwyr bach. Holwyd y Dirprwy Weinidog a fyddai'n bosibl i gynhyrchwyr bach ddiheintio cerbydau cludo gartref yn amodol ar archwiliad priodol. Nododd y pwyllgor fod diheintio mewn canolfannau diheintio'n fwy economaidd gan fod y gwaith yn cael ei wneud ar raddfa fwy. Byddai angen mwy o archwiliadau milfeddygol pe bai'r diheintio'n cael ei wneud gartref a byddai goblygiadau ariannol sylweddol i'r archwiliadau hyn.

2.8 Yr oedd ffermwyr a oedd â mwy nag un daliad yn gorfod talu am archwiliadau milfeddygol ar wahân ar gyfer pob daliad yr oeddent yn anfon stoc i'w lladd ohono. Awgrymwyd y dylai'r llywodraeth fod yn gyfrifol am y costau hyn. Nododd y pwyllgor y byddid yn dwyn y mater i sylw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

2.9 Holwyd y Dirprwy Weinidog a ellid rhoi trwyddedau er mwyn symud defaid o diroedd comin er mwyn eu cneifio. Nododd y pwyllgor fod swyddfeydd rhanbarthol yn barod i roi trwyddedau cyn gynted ag y byddai Adran yr Amgylchedd yn rhoi caniatâd iddynt wneud hynny, a disgwylid na fyddai hynny'n hir.

2.10 Codwyd pwnc y £12 miliwn a roddwyd i awdurdodau lleol ar gyfer cymorth â'r dreth i fusnesau sydd wedi dioddef oherwydd clwy'r traed a'r genau. Yr oedd y cymorth hwn wedi ei ddyrannu ar sail gwerth busnesau yn hytrach nag angen. Yr oedd ar rai awdurdodau angen ail gyfran ond nid oedd unrhyw ymateb wedi dod gan y Gweinidog dros Gyllid. Awgrymwyd y dylai'r pwyllgor ystyried y pwnc ac y dylai'r Gweinidog baratoi papur neu gynnwys eitem ar y pwnc yn ei adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf. Nododd y pwyllgor mai'r Gweinidog dros Gyllid oedd yn gyfrifol am gymorth gyda'r dreth ond nad oedd unrhyw reswm pam na allai'r pwyllgor ystyried y pecyn cymorth a'r defnydd a wneir ohono. Nodwyd hefyd mai'r unig iawndal a dalwyd i ffermwyr oedd yr iawndal am dda byw a laddwyd yn unol â'r camau er mwyn rheoli'r clwy a'r cynllun difa ar sail lles.

2.11 Yr oedd y Gweinidog wedi awgrymu yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos flaenorol y byddai manylion y pecyn adfywio ar gyfer ardaloedd gwledig yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnos yn dilyn diwedd sesiwn yr haf. Yr oedd hyn yn golygu na fyddai'r pwyllgor yn cael cyfle i ystyried y pecyn na holi'r Gweinidog hyd ddiwedd sesiwn yr hydref. Gofynnwyd a fyddai modd dod â manylion y pecyn i gyfarfod y pwyllgor ar 18 Gorffennaf. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn bwysig nad oedd y pecyn yn cael ei ruthro. Ar y llaw arall yr oedd angen ei gyhoeddi cyn gynted ag yr oedd yn barod.

Nododd y pwyllgor na fyddai'n bosibl rhoi syniad ynghylch cynnwys y pecyn yn y cyfarfod nesaf.

2.12 Awgrymwyd yn y cyfarfod blaenorol y dylid cyhoeddi datganiad ynghylch y trefniadau ar gyfer profion gwaed o fewn 7 cilomedr i le heintiedig er mwyn egluro'r sefyllfa wrth ffermwyr. Gofynnwyd hefyd am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnydd sydd wedi ei wneud gyda'r profion yn y parthau 3 cilomedr. Dywedodd David Thomas wrth y pwyllgor fod y samplau wedi eu cwblhau yn y parthau amddiffyn o amgylch pum clwstwr a bod y rhybuddion Ffurflen D wedi eu codi. Yr oedd samplau'n dal i gael eu cymryd o amgylch clystyrau eraill. Byddai'r gwaith o gymryd samplau yng [nghanol a gogledd?] Powys wedi ei gwblhau erbyn diwedd yr wythnos ganlynol.

2.13 Holwyd y Dirprwy Weinidog a ellid sefydlu canolfan gasglu cyn gynted ag y byddai rhybuddion Ffurflen D mewn ardal heintiedig wedi eu codi. Dywedodd David Thomas y gellid sefydlu canolfannau casglu yn unrhyw le ac eithrio o fewn parth amddiffyn 3 cilomedr ar yr amod eu bod yn cyrraedd y safonau angenrheidiol.

2.14 Holwyd y Dirprwy Weinidog beth oedd yn cael ei wneud er mwyn delio gyda gwartheg na ellid eu symud oherwydd cyfyngiadau symud clwy'r traed a'r genau ac a oedd bellach dros ddeng mis ar hugain oed. Nododd y pwyllgor fod y pwnc hwn yn cael ei drafod gydag Adran yr Amgylchedd y diwrnod hwnnw.

2.15 Holwyd y Dirprwy Weinidog pa gyllid oedd ar gael er mwyn bwrw 'mlaen â Chynllun Cenedlaethol Clefyd y Crafu. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y cynllun yn bwysig ac y byddai'r Gweinidog yn codi'r mater gydag Adran yr Amgylchedd. Nododd y pwyllgor y gellid darparu manylion am gynlluniau cyllido er mwyn cyflymu'r broses o weithredu'r Cynllun.

2.16 Holwyd y Dirprwy Weinidog a fyddai ffermwyr yr oedd eu da byw wedi eu difa yn unol â'r camau i reoli'r clefyd neu'r cynllun difa ar sail lles yn gymwys dan gynlluniau cymhorthdal fel y Premiwm Blynyddol Defaid. Nododd y pwyllgor y byddai'r pwynt hwn yn cael ei archwilio ac y byddai nodyn yn cael ei ddarparu.

2.17 Yr oedd adroddiad y Gweinidog yn nodi y byddai dros £9 miliwn ar gael i Gymru dan LEADER+ yn ystod y chwe blynedd nesaf (paragraff 13). Ai hwn oedd yr arian a oedd yn cael ei ddarparu gan Ewrop ynteu a oedd yn cynnwys arian cyfatebol. Nododd y pwyllgor y byddai nodyn yn cael ei ddarparu ar y pwynt hwn.

*Pwyntiau gweithredu*

2.18 Ymholiadau i'w gwneud er mwyn canfod a fyddai rhannau o garcasau yn hytrach na charcasau cyfan yn gymwys ar gyfer cynlluniau storio preifat a'r pwyllgor i'w hysbysu (Ceir copi o'r llythyr a ddarparwyd yn atodiad 3) - Mike Dunn (Is-adran Polisi Amaethyddol).

2.19 Nodyn i'w ddarparu er mwyn egluro am faint o amser yr oedd firws clwy'r traed a'r genau yn

parhau'n heintus mewn cig ar ôl lladd anifeiliaid - David Thomas.

2.20 Manylion am y pecyn adfywio gwledig, gan gynnwys dosbarthu cymorth treth, i'w gynnwys yn adroddiad y Gweinidog ar gyfer cyfarfod y pwyllgor ar 18 Gorffennaf - Gweinidog (Is-adran Polisi Gwledig).

2.21 Manylion i'w darparu am gynlluniau cyllido er mwyn cyflymu'r broses o weithredu Cynllun Cenedlaethol Clefyd y Crafu - Mike Dunn (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio).

2.22 Nodyn i'w ddarparu yn egluro gwahanol elfennau'r £9 miliwn a oedd ar gael dan LEADER+ - Jasper Roberts (Is-adran Polisi Gwledig).

2.23 Nodyn i'w ddarparu ynghylch cymhwyster ar gyfer cymhorthdal lle'r oedd da byw wedi eu difa. (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 2) - Gareth Jones (Gweithrediadau Clwy'r Traed a'r Genau)

**Eitem 3: Y Gyllideb** - ARD 12-01(p2)
3.1 Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y Gweinidog yn awyddus i glywed barn y pwyllgor ynghylch blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb amaethyddiaeth a datblygu gwledig. Nododd y pwyllgor mai prif flaenoriaeth y Gweinidog y llynedd oedd sicrhau arian cyfatebol ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewropeaidd dan Amcan 1 a'r Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn bwrw 'mlaen â'r rhaglen bwyd-amaeth a chynlluniau amaeth-amgylcheddol. Byddai hyn yn parhau i fod yn un o'r blaenoriaethau yn y gyllideb amaethyddiaeth yn y dyfodol.

3.2 Holwyd y Dirprwy Weinidog a ellid darparu manylion gwariant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Deellid bod gwybodaeth gyffelyb wedi ei darparu i bwyllgorau eraill. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y gellid darparu'r wybodaeth ar gyfer y cyfarfod nesaf ynghyd â manylion am wariant arfaethedig Cyswllt Ffermio.

3.3 Mynegwyd pryder nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn y blynyddoedd a oedd i ddod ar gyfer gweithredu Cynllun Cenedlaethol Clefyd y Crafu yn gynt. Dylid rhoi sylw i hyn fel mater o flaenoriaeth er mwyn osgoi anawsterau posibl yn y farchnad allforio yn y dyfodol. Nododd y pwyllgor y byddai cais yn cael ei wneud.

3.4 Mynegwyd y farn fod angen cynydd sylweddol yng nghyllideb Tir Gofal os oedd y budd mwyaf i'w gael o'r cynllun.

3.5 Cyfeiriwyd at y gwahaniaeth barn ynghylch gwerth y pecyn cymorth sefydlu. Fodd bynnag, yr oedd yn bwysig bod y camau a nodwyd er mwyn cynorthwyo ffermwyr ieuainc yn y papur ar Ffermwyr Newydd a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol (ARD 11-01(p3)) yn cael eu cyllido'n briodol yn 2002-03. Yr oedd yn bwysig hefyd bod pobl ifanc a oedd yn awyddus i ddechrau ffermio yn gallu cael gafael ar gwotâu a bod cyllid ar gael trwy Amcan 1 ar gyfer hyfforddiant.

3.6 Cytunwyd y byddai’r pwyllgor yn ystyried blaenoriaethau’r gyllideb unwaith eto yn y cyfarfod ar 18 Gorffennaf.

*Pwyntiau gweithredu*

3.7 Manylion am wariant diwedd y flwyddyn a gwariant arfaethedig ar y gyllideb amaethyddiaeth a datblygu gwledig yn 2000-2001 a dadansoddiad o’r cyllid ar gyfer Cyswllt Ffermio i’w darparu ar gyfer y cyfarfod ar 18 Gorffennaf – Mike Dunn (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio).

**Eitem 4: Partneriaeth Bwyd-Amaeth** - ARD 12-01(p3)

4.1 Diolchodd Wynfford James i’r pwyllgor am y cyfle i sôn am y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Grwp Strategaeth Llaeth y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth a Chyfadran Fwyd yr Awdurdod Datblygu. Dywedodd fod Gareth Evans, Cadeirydd y Grwp Strategaeth, a Christine Lewis, Cadeirydd y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth yn anfon eu hymddiheuriadau. Cyflwynodd Arwyn Davies y papur a oedd yn amlinellu’r prif bwyntiau. Dywedodd wrth y pwyllgor fod fersiwn Cymraeg o’r ymgyrch "White stuff" wedi ei lansio y bore hwnnw.

4.2 Gofynnwyd i Wynfford James sut yr oedd cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn cael eu defnyddio er mwyn cynorthwyo’r sector llaeth. Dywedodd wrth y pwyllgor fod grant prosesu a marchnata ar gael dan Amcan 1 yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd. Yr oedd hyn yn cael ei efelychu yng ngweddill Cymru drwy grantiau dan y Cynllun Datblygu Gwledig lle bo’n briodol a grantiau’r Awdurdod Datblygu mewn ardaloedd eraill.

4.3 Codwyd pwnc llaeth ar gyfer ysgolion. Beth oedd yn cael ei wneud er mwyn hybu yfed llaeth mewn ysgolion? A oedd modd ailgylchu’r pacedi a ddefnyddid? Beth oedd yn cael ei wneud er mwyn gwrthsefyll y gystadleuaeth oddi wrth ddiodydd meddal? Dywedodd Arwyn Davies fod ysgolion yn gallu manteisio ar gyllid a oedd ar gael gan y Cynulliad er mwyn prynu oergelloedd fel bod modd gweini llaeth ar y tymheredd gorau posibl. Yr oedd nifer o broseswyr yn ystyried dulliau pacio ond yr oedd llaeth yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd mewn pecynnau cardfwrdd na ellid eu hailgylchu. Dywedodd Dewi Williams fod trafodaethau’n cael eu cynnal gyda chyflenwyr llaeth ynghylch agor bariau llaeth mewn ysgolion uwchradd er mwyn annog disgyblion h^yn i yfed llaeth.

4.4 Holodd yr aelodau ynghylch yr effaith yr oedd clwy’r traed a’r genau wedi ei gael ar y sector llaeth, ar allforion ac ar y farchnad gartref. Dywedodd mai’r prif effaith oedd y cyfyngiad ar symud anifeiliaid a oedd yn golygu na ellid symud gwartheg a oedd dros ddeng mis ar hugain na lloi oddi ar ddaliadau a bod hyn yn arwain at brinder porthiant. Collwyd rhai archebion allforio ond cawsant eu hadennill yn gyflym felly ni chafodd hyn effaith arwyddocaol. Yr oedd y farchnad gartref yn dal ei thir yn dda ac yr oedd wedi cynyddu yn ystod y tri neu bedwar mis diwethaf.

4.5 Holwyd Arwyn Davies a oedd canslo sioeau amaethyddol yn effeithio ar werthiant. Yr oedd agweddau iechyd yfed llaeth yn cael eu hyrwyddo ond a ellid gwneud mwy er mwyn pwysleisio

manteision calsiwm mewn llaeth i ferched? Dywedodd fod y gwaith hyrwyddo bellach yn cael ei dargedu drwy'r ôl-gerbyd Profiad o Fwyd Cymreig yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Yr oedd nifer y ffeiriau bwyd lleol ar gynnydd ac yr oeddent yn gyfleoedd da i hybu cynnyrch llaeth ac i gynhyrchwyr gael cyswllt uniongyrchol gyda chwsmeriaid. Yr oedd dros 30 o ffeiriau bwyd yn cael eu cynnal yng Nghymru ac yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n ailgyfeirio'r buddsoddiad a fyddai wedi mynd i'r Sioe Frenhinol i'r ffeiriau hyn. Yr oedd y Cyngor Llaeth yn gweithio gydag awdurdodau iechyd er mwyn hyrwyddo manteision llaeth o safbwynt iechyd ac yr oedd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd a oedd wedi eu targedu at fenywod.

4.6 Yr oedd nifer y ffermydd llaeth yn gostwng yng Nghymru. Gofynnwyd i Arwyn Davies a oedd y cwotâu llaeth a arferai gael eu dal gan y rhai hynny a oedd yn gadael y diwydiant yn aros yng Nghymru. Dywedodd wrth y pwyllgor ei bod yn anodd cael gwybodaeth gyfredol. Yr oedd y data diweddaraf a oedd ar gael yn 18 mis oed ond yr oedd y rhain yn dangos bod cyfanswm y cwotâu a oedd yn cael eu dal yng Nghymru wedi codi er bod nifer y cynhyrchwyr wedi gostwng.

4.7 Holwyd Wynfford James ynghylch y berthynas rhwng cwmnïau llaeth mawr a'r Strategaeth Laeth. Dywedodd mai nod y Cynllun Gweithredu Llaeth oedd sicrhau bod cymaint ag a oedd yn bosibl o laeth Cymru'n cael ei brosesu yng Nghymru tra'n cydnabod y farchnad ehangach ar gyfer cynnyrch llaeth. Cynhelid trafodaethau'n rheolaidd gyda phob un a oedd yn gysylltiedig â'r sector.

4.8 Holwyd Arwyn Davies faint o laeth organig y gellid ei brosesu a'i farchnata yng Nghymru. Dywedodd fod y gwaith cynhyrchu'n dymhorol ac mai'r brif dasg ar gyfer cynhyrchwyr oedd cynhyrchu digon yn enwedig yn y gwanwyn a dechrau'r haf. Cynhyrchwyd mwy nag y gellid delio ag ef eleni ac yr oedd gwaith yn cael ei wneud gyda phroseswyr organig ac anorganig er mwyn rhoi sylw i hyn.

4.9 Yr oedd gwerthiant wedi elwa yng Nghymru o ganlyniad i frandio llaeth Cymreig. Holwyd Arwyn Davies beth oedd y potensial ar gyfer llaeth wedi ei frandio fel llaeth Cymreig y tu allan i Gymru. Dywedodd fod gwaith ymchwil wedi ei wneud yn ystod y 6 i 9 mis diwethaf. Nid oedd cymaint o ymwybyddiaeth o laeth Cymreig y tu allan i Gymru. Y prif farchnadoedd oedd Canolbarth a De-ddwyrain Lloegr. Yr oedd angen gwella'r technegau marchnata er mwyn cyfleu'r neges ansawdd ac yr oedd strategaeth farchnata'n cael ei datblygu.

4.10 Ar thema brandio awgrymwyd bod angen annog yr archfarchnadoedd i werthu cynnyrch Cymreig a nodi ar dderbynebau tiliau faint a wariwyd arnynt fel sy'n digwydd, er enghraifft, yn Iwerddon. Dywedodd Wynfford James fod archfarchnadoedd Cymru bellach yn cynnig 1,800 o wahanol gynnyrch Cymreig a bod eu gwerth y llynedd yn £110 miliwn. Gwelwyd cynnydd o 30% yn nifer y cynnyrch Cymreig a werthwyd mewn archfarchnadoedd y tu allan i Gymru yn ystod yr un cyfnod. Yr oedd gan y Gyfarwyddiaeth Fwyd berthynas dda gyda'r prif archfarchnadoedd ac yr oedd yn edrych ar y posibilrwydd o hybu rhagor ar gynnyrch Cymreig.

4.11 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Cyfarwyddiaeth Fwyd yr Awdurdod Datblygu.

**Eitem 5: Adroddiadau Cloriannu Tir Gofal** - ARD 12-01(p4)
5.1 Cyflwynodd Mike Dunn y papur a oedd yn amlinellu'r prif faterion.

5.2 Croesawyd y cynnig i annog ceisiadau grwp oherwydd y gallai blociau mwy o dir arwain at fwy o fanteision amgylcheddol. A ellid gwneud ceisiadau grwp ar gyfer tir comin? Dywedodd Brian Pawson y byddai cais a fyddai'n ymwneud â thir comin yn cael ei ystyried fel un cais gan gymdeithas gynrychioliadol y porwyr. Yr oedd nifer o geisiadau o'r fath wedi eu gwneud yn barod mewn perthynas â thiroedd comin bychain.

5.3 Holwyd Mike Dunn ynghylch statws y cynigion a oedd yn y papur. Dywedodd wrth y pwyllgor fod yr holl newidiadau a awgrymwyd yno i'w hystyried. Nid oedd unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud eto. Byddai'n rhaid i nifer o'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun gael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd fel newidiadau i'r Cynllun Datblygu Gwledig, er y gellid cyflwyno rhai gwelliannau i'r broses yn weinyddol.

5.4 Nid oedd y papur yn cyfeirio at drefniadau ar gyfer trosglwyddo rhwng Tir Cymen a Thir Gofal. Nododd y pwyllgor fod angen system a fyddai'n caniatáu i'r manteision a ddarperid dan y cynllun Tir Cymen gael eu cadw dan y cynllun Tir Gofal. Fodd bynnag, yr oedd yn bwysig nad oedd y system yn ffafrio cytundebau Tir Cymen a oedd yn bodoli'n barod ar draul rhai newydd Tir Gofal. Gallai manteision amgylcheddol parhaus a ddarperid dan y cynllun Tir Cymen sgorio hefyd dan y cynllun Tir Gofal lle'r oedd hynny'n berthnasol.

5.5 Gwnaethpwyd y feirniadaeth bod Tir Gofal yn gynllun elitaidd ac y dylid cyflwyno dull gweithredu yn seiliedig ar ddewislen ar gyfer gwelliannau amaeth-amgylcheddol er mwyn caniatáu i fwy o ffermwyr gymryd rhan. Nododd y pwyllgor y byddai'n rhaid i unrhyw gynllun o'r fath fod ar wahân i gynllun fferm gyfan Tir Gofal na allai ganiatáu i waith ar un rhan o'r fferm gael effaith andwyol ar ran arall. Awgrymodd yr aelodau y gallai elfennau cynlluniau penodol, fel gwrychoedd, gynnig manteision amgylcheddol i ffermydd cyfan ond y gallent fod yn haws i gael gafael arnynt na Thir Gofal.

5.6 Yr oedd y papur yn cynnig y dylid newid y system sgorio er budd ffermwyr ieuainc. Cadarnhawyd mai ffermwyr ieuainc oedd y rhai hynny a oedd dan 40 oed.

5.7 Gofynnwyd i Mike Dunn pa bryd y byddai'r gyllideb ar gyfer Tir Cymen ac Ardaloedd Amgylchedd Arbennig yn dod i ben. Dywedodd wrth y pwyllgor y byddai'r gyllideb yn dod i ben 10 mlynedd ar ôl i'r cytundebau Tir Cymen ac Ardal Amgylchedd Arbennig olaf gael eu llofnodi.

5.8 Gofynnwyd i Mike Dunn beth fyddai'r camau nesaf yn y broses Gloriannu. Dywedodd y byddai mwy o waith yn cael ei wneud er mwyn gwella'r newidiadau arfaethedig gyda'r bwriad o gyflwyno pecyn cytunedig y flwyddyn nesaf.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol - ARD 11-01(min)**
6.1 Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin.

**Atodiad 1**

**Gallu firws clwy'r traed a'r genau i oroesi ym meinwe anifail ar ôl ei ladd**

1. Yn y cyfarfod uchod gofynnwyd i mi ddarparu nodyn i egluro pa mor hir y gall firws clwy'r traed a'r genau oroesi ym meinwe anifail ar ôl ei ladd.

2. Mae'r deunydd gwyddonol sy'n ymwneud â'r mater hwn yn cadarnhau bod yr adweithiau biocemegol sy'n digwydd yn y cyhyr ar ôl marwolaeth yn achosi gostyngiad cyflym yn lefel pH y feinwe sy'n ei gwneud hi'n anos i'r firws oroesi. Felly, mae'r amser a gymerir i'r firws ddarfod yn dibynnu ar pa mor gyflym y mae'r pH yn gostwng ar ôl lladd yr anifail.

3. Mae amryw o ffactorau'n effeithio ar pa mor gyflym y mae'r pH yn gostwng ar ôl lladd anifail megis y tymheredd amgylchynol a chyflwr yr anifail cyn ei ladd ee bydd yn cymryd mwy o amser i'r pH ostwng os yw'r anifail o dan straen neu'n lluddedig. Yn y mwyafrif o achosion cyrhaeddir amodau asidig tua 4 i 6 awr ar ôl marwolaeth a bydd y firws yn darfod yn fuan wedi hynny. Er hynny, mae'r deunydd yn nodi y gall y firws oroesi am 24 awr mewn cigoedd a gedwir ar dymheredd o 4C ond y bydd yn darfod o fewn 48 awr.

4. Rydym yn gwybod bod modd i'r firws oroesi ym mêr esgyrn carcasau gwartheg heintiedig am hyd at 194 diwrnod.

5. I grynhoi, felly, gall firws clwy'r traed a'r genau oroesi mewn cig carcasau am amrywiaeth o amseroedd, o tua 6 awr i 48 awr ar ôl marwolaeth, yn dibynnu ar pa mor gyflym y mae'r pH yn y feinwe yn gostwng.

**David Thomas**
Swyddog Milfeddygol

---

**Atodiad 2**

**Nodyn oddi wrth y Gweinidog dros Faterion Gwledig**

Yn ddiweddar mae aelodau'r pwyllgor wedi holi ynghylch y trefniadau ar gyfer ymdrin â cheisiadau am gymhorthdal gan ffermwyr sydd wedi gorfod difa eu hanifeiliaid oherwydd clwy'r traed a'r genau. Yn y

cyfarfod ddydd Mercher diwethaf, amlinellais egwyddorion bras y trefniadau. Mae’r manylion a ganlyn yn rhoi ychydig mwy o wybodaeth sy’n newyddion da i ffermwyr ar adeg anodd fel hon.

Ysgrifennais at bob ffermwr yng Nghymru ar 20 Ebrill yn egluro effaith clwy’r traed a’r genau ar gymorthdaliadau da byw. Ar y pryd, y bwriad oedd ceisio diogelu’r premiymau o dan reolau force majeure. Mae’r Comisiwn Ewropeaidd bellach wedi adolygu hyn ac wedi penderfynu y byddai’r sylfaen gyfreithiol yn fwy cadarn ac y byddai’n haws gweinyddu’r ceisiadau pe câi’r Rheoliadau eu newid. Bydd y rheolau newydd (Rheoliad y Comisiwn (CE) 1458/2001 ar 17 Gorffennaf 2001) yn diogelu hawl ffermwyr i daliadau’r Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid, y Cynllun Premiwm Buchod Sugno a’r Cynllun Premiwm Arbennig Eidion (a’r taliadau anarddwys cysylltiedig) os yw anifeiliaid sydd eisoes yn destun cais

- wedi eu difa, neu yn cael eu difa, am eu bod wedi’u heintio â chlwy’r traed a’r genau, yn gysylltiadau peryglus, neu ar ffermydd cyffiniol neu gyfagos;
- wedi eu difa, neu yn cael eu difa, fel rhan o’r Cynllun Lles Da Byw (Gwaredu); neu
- wedi eu difa cyn cyflwyno’r Cynllun Lles Da Byw (Gwaredu) ar sail tystysgrif filfeddygol yn cadarnhau mai dyna’r unig ffordd i ddatrys problem les ddifrifol.

Bydd y rheolau newydd yn berthnasol i geisiadau cymorth a gyflwynir cyn 31 Rhagfyr 2001.

Rhaid ateb gofynion eraill y cynllun lle bo hynny’n bosibl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr anifeiliaid sy’n destun cais yn gymwys – er enghraifft, bydd angen sicrhau y byddai’r meini prawf i famogion magu y Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid (SAPS) wedi cael eu bodloni cyn diwedd y cyfnod cadw. Efallai y bydd yn rhaid i staff y Swyddfeydd Rhanbarthol gysylltu ag ymgeiswyr am ragor o wybodaeth, yn enwedig os oes angen egluro unrhyw anghysondeb rhwng y manylion ar geisiadau cymhorthdal a’r manylion ar geisiadau iawndal cynllun difa clwy’r traed a’r genau a’r Cynllun Lles Da Byw (Gwaredu).

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn asesu effaith lawn y rheolau newydd ac rwy’n gobeithio y byddaf yn medru ysgrifennu at holl ffermwyr Cymru i roi rhagor o wybodaeth iddynt cyn bo hir.

---

**Atodiad 3**

Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.

**Action: The eligibility of part rather than whole carcasses for private storage schemes to be checked and the committee informed.**

**Response**

- In July the Commission agreed to open a GB storage aid scheme for sheepmeat (the Regulation was published on 10 August). Under the Commission proposals, operators within the GB (generally abattoirs) were invited to submit tenders by 27 August, with a second tranche closing on 17 September, if needed.

- The Commission’s proposals covered lambs with a carcass weight of 15 kg and above. The operators were given the choice to store cuts (both bone-in and boneless) as well as carcassess and half - carcasses. This satisfied the concern raised in Committee.

At the Sheepmeat Management Committee on 21 September the Commission said that they were intending to accept 7 bids out of 70 tendered for Private Storage Aid in the second round. The bids accepted equate to 140 tonnes out of 1535 tonnes tendered.